Beth yw eich cof cynharaf?
Band y Salvation Army amser 'dolig yn y Rhondda. Parti ar ddiwedd y Rhyfel (Ail wrth gwrs) a phawb allan ar y stryd.

Sut y byddech chi'n dymuno marw?
Yn dawel yn fy nghwsg - heb straen ar y teulu.

Beth yw eich syniad chi o nefoedd?
Côr Pen-dam yn ennill y Genedlaethol!!!

Pe baech yn cael cynnig noson allan gyda rhywun enwog sy'n fyw nawr pwy fyddai'r person hwnnw?
Bryn Terfel.

Sut y byddech yn gwario cyfoeth mawr a enillwyd gennych neu a adawyd i chi?
Yn ddoeth gobeithio.

Mewn tân, pa beth ar wahân i bobl a fyddech yn ceisio ei achub o'ch cartref?
Lluniau o'r teulu.

Beth yw eich hoff gerddoriaeth?
Clasurol. Hoff iawn o ganu corawl, Beethoven a Verdi.

Pa ddihareb neu ddywediad sydd agosaf at y gwir?
Nid da lle gellir gwell.